CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI
CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL

Gorchymyn Cydgrynhoi (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) 2019 Gorchymyn (Diwygio Rhif 2) 2021

Diwygio'r Gorchymyn i ganiatáu gorfodi cilfachau e-dacsis mewn meysydd parcio

HYSBYSIR drwy hyn fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrth weithredu ei holl bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ('y Ddeddf') a Rhan IV o Atodlen 9 i'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Parcio 1989, Deddf Rheoli Traffig 2004 ('Deddf 2004') a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, yn bwriadu gwneud Gorchymyn a fydd â'r effaith o ddiwygio Gorchymyn Cydgrynhoi (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2019.

Mae angen diwygio'r gorchymyn cyfreithiol er mwyn cyfyngu'n ffurfiol ar y defnydd o gilfachau wedi'u marcio'n briodol i ganiatáu i gerbydau e-dacsis yn unig i barcio a gwefru eu cerbydau yn drydanol yn y lleoedd dynodedig hynny. Bydd y Gorchymyn hefyd yn mynnu bod yn rhaid cysylltu'r e-dacsi â gwefrydd ac ni chaiff aros y tu hwnt i'r amser aros na'r amser rheoledig wedi'u nodi ar yr arwyddion. Bydd diwygio'r Gorchymyn yn caniatáu cymryd camau gorfodi os bydd cerbydau nad ydyn nhw'n e-dacsis yn parcio yn y cilfachau ac os na fydd e-dacsis yn defnyddio'r mannau gwefru yn y cilfachau wedi'u marcio yn unol â'r arwyddion.

Gellir archwilio copi o'r cynigion, datganiad gan y Cyngor o'i resymau dros wneud y Gorchymyn a mapiau sy'n dangos y darnau o ffordd dan sylw ar wefan y Cyngor: www.caerffili.gov.uk/GorchmynionRheoleiddioTraffig

Gellir cael rhagor o wybodaeth gan yr Isadran Rheoli Traffig drwy ffonio 01443 866948 neu e-bostio godsat@caerffili.gov.uk

Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rheswm dros wneud hynny, drwy e-bostio jonesa23@caerffili.gov.uk erbyn 29 Hydref, neu ffonio 01443 864221. Gall gohebiaeth gael ei datgelu yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

Dyddiedig 8 Hydref 2021

Marcus Lloyd, Pennaeth Isadeiledd
Tŷ Tredomen, Parc Tredomen
Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7WF

(Off-Street Parking Places) Consolidation Order 2019 (Amendment No 2) Order 2021

Amendment to the Order to allow enforcement of E-taxi bays in Car Parks

NOTICE is hereby given that Caerphilly County Borough Council in exercise of its powers under the Road Traffic Regulation Act 1984 ('the Act') and Part IV of Schedule 9 to the Act as amended by the Parking Act 1989, the Traffic Management Act 2004 ("the 2004 Act") and of all other enabling powers, and after consulting the Chief Officer of Police in accordance with Part III of Schedule 9 to the Act, propose to make an Order the effect of which is to amend the Caerphilly County Borough Council (Off-Street Parking Places) Consolidation Order 2019.

The amendments to the legal order are required in order to formally restrict the use of appropriately marked bays to allow only E-taxi vehicles to park and electrically charge their vehicles in those designated spaces. The Order also will require that an E-taxi must be connected to a charger and shall not exceed the waiting time or regulated time indicated on the signage. The amendment to the Order will allow enforcement action to be taken should non-E-taxi vehicles park in the bays and if E-taxis are not utilising the charging points in the marked bays in accordance with the signage.

A copy of the proposals, a statement of the Council's reasons for making the Order and Maps showing the affected lengths of road may be inspected on the Councils website at www.caerphilly.gov.uk/TrafficRegulationsOrders

Further information can be obtained from the Traffic Management Section, telephone 01443 866948 or email godsat@caerphilly.gov.uk

Any objection to the proposed Order with the grounds for making it should be made by email to jonesa23@caerphilly.gov.uk by 29th October, telephone 01443 864221. Correspondence may be disclosed as required by the Freedom of Information Act.

Dated 8th October 2021

Marcus Lloyd
Head of Infrastructure
Tredomen House, Tredomen Park,
Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7WF